



## Dogfen Ymgynghori Ysgol Uwchradd St David's, Saltney Fersiwn i Bobl Ifanc

**Beth yw'r argymhelliad?** Rhoi'r gorau i gynnig addysg chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd St David's o 31 Awst 2016 ymlaen. (yn amodol ar sêl bendith Gweinidog Cymru)

**Pam ydyn ni'n cynnig newid?** Mae gan Ysgol Uwchradd St David's hanes hir o ddarparu canlyniadau addysgol da yn y chweched dosbarth. Ond mae'r ysgol a'r grŵp o ysgolion partneriaeth sy'n cynnig cyrsiau ôl-16 oed yn ei chael hi'n gynyddol anodd i gynnal nifer y cyrsiau sy'n ofynnol gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) Llywodraeth Cymru.

## Beth sy'n digwydd?

Mae'r Cyngor, Ysgol Uwchradd St David's ac Ysgolion Uwchradd eraill y bartneriaeth yn yr ardal wedi bod yn adolygu'r ffordd mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael ei chynnig. Pwrpas yr adolygiad yn gwneud yn siŵr bod y detholiad o bynciau sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion chweched dosbarth yn bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr ôl-16.



## Ymgynghoriad

Nôl yn 2014, fe wnaethom ni ymweld â'ch Ysgol ac roedd cyfle i chi, eich rhieni/gofalwyr a Chyngor yr Ysgol ddweud eich barn wrthym ni. Roedd y Cyngor eisiau darparu mwy o wybodaeth a gofyn i chi eto am eich barn ar y cynigion.



## Beth yw'r amserlen sydd mewn golwg?

Rydym yn cynnig cau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd St David's erbyn 31 Awst 2016. O fis Medi 2016 ymlaen, bydd disgyblion sydd eisiau mynd ymlaen â'u haddysg ar ôl blwyddyn 11 yn cael dewis a ydyn nhw am fynychu'r hyb newydd ôl-16 yng Ngholeg Cambria yng Nghei Connah.

## Beth fydd yn newid?

Ni fydd darpariaeth chweched dosbarth yn eich ysgol leol o 31 Awst 2016 ymlaen.

Ond gyda'r cynnig hwn, bydd modd i fyfyrwyr fanteisio ar ddetholiad addas o gyrsiau mewn un man arbenigol, yn hytrach na dilyn cyrsiau ar wasgar mewn sawl ysgol wahanol.



## Fyddai'n gweld fy hen athrawon o gwbl?

O bosib. Bydd y swyddi dysgu yn yr hyb newydd yn cael eu neilltuo i ddechrau ar gyfer staff yn yr ysgolion partneriaeth (gan gynnwys St David's) ac i staff y coleg sy'n dysgu cyrsiau ôl-16 ar hyn o bryd.



## Fydd yna drafnidiaeth am ddim?

Bydd, ond bydd angen i chi wneud cais a bodloni'r meini prawf ym mholisi trafnidiaeth y Cyngor.

Bydd gwybodaeth bellach ar gael yn eich ysgol yn nes at yr amser.

## Pwy sy'n gyfrifol am yr Hyb ôl-16?

Bydd yr Hyb ôl-16 ar safle Coleg Cambria yng Ngheï Connah. Coleg Cambria fydd yn gyfrifol am yr Hyb a bydd yn agor ym mis Medi 2016.

Mae eich ysgol a llywodraethwyr eich ysgol wedi bod yn rhan o grŵp cyngori gydag ysgolion partneriaeth a'r coleg i sicrhau bod y cyfleuster wedi'i ddatblygu gan ystyried lles pennaf y dysgwyr.

Bydd y Cyngor, yr ysgolion partneriaeth a'r coleg yn cydweithio ac yn cynhyrchu cynlluniau manwl, gyda'r nod o sicrhau bod y pontio'n esmwyth ac er mwyn diogelu dysgwyr cymaint ag y bo modd.



## Sut ydw i'n cofrestru i ymuno â'r hyb?

Bydd cylch derbyniadau 2015 yn cael ei weinyddu gan yr ysgolion partneriaeth a'r coleg (bydd gwybodaeth bellach ar gael yn eich Ysgol yn nes at yr amser).

Bydd llefydd yn cael eu neilltuo ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Flwyddyn 12 yn yr ysgolion partneriaeth i flwyddyn 13 yn yr hyb y bwriedir ei agor.

O hynny mlaen, bydd derbyniadau i'r hyb ôl-16 yn cael eu gweinyddu gan y Coleg yn unol â'u polisi derbyniadau.



**BETH SY'N WAHANOL?**  
Bydd yr Hyb ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria, Cei Connah, yn agor ym mis Medi 2016 a bydd yn cynnig y canlynol:-

- Mwy o ddewisiadau pwnc i fyfyrwyr
- Ystafelloedd Celf, TGCh, a Dylunio a Thechnoleg newydd
- Ardaloedd astudio preifat
- Ardaloedd astudio cymdeithasol
- Cyfleusterau chwaraeon ar safle Glannau Dyfrdwy, Coleg Cambria

Bydd y cyfleusterau hyn yn newydd sbon ac yn cael eu hadeiladu'n arbennig ar gyfer 700 o ddysgwyr ôl-16

Argraff gweledol o'r Hyb ôl-16



## BETH FYDD YN DIGWYDD PRYD?

Digwyddiadau	Dyddiadau
Cael barn pawb	5 Mehefin 2015 – 17 Gorffennaf 2015
Dweud wrth bawb beth rydyn ni wedi penderfynu ei wneud	Awst 2015
Gofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynnig	Ionawr 2016
Os bydd cytundeb, cadarnhau y bydd chweched dosbarth Ysgol Uwchradd St David's yn cau	Chwefror 2016
Os bydd cytundeb, cau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd St David's	Awst 2016
Agor chweched dosbarth yn yr hyb, Coleg Cambria sydd yng Nghei Connah	Medi 2016

## PAM YDYN NI'N GOFYN I CHI AM EICH BARN?

Rydyn ni am glywed beth rydych chi'n ei feddwl am y cynlluniau ar gyfer y chweched dosbarth.

Rydyn ni hefyd yn gofyn i rieni/gofalwyr, athrawon a rheini/gofalwyr ac athrawon mewn ysgolion eraill, a phawb arall y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt.

Dyma'ch cyfle chi i ddweud beth rydych chi'n ei feddwl a bydd eich barn yn rhan o adroddiad i'n Cabinet ac i Weinidog Cymru.

Byddem yn falch pe bai modd i chi ateb y cwestiynau ar y dudalen gefn neu gallwch ddweud wrthyn ni beth yw eich barn drwy fynd i

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

Neu anfon e-bost atom yn

[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

## AM WYBOD MWY?

Dogfen grynodedb yw hon o'r Ymgynghoriad Ffurfiol llawn. Gallwch weld y fersiwn lawn a chael llawer o wybodaeth, ffeithiau a ffigurau ar ein gwefan:

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

## BETH YW EICH BARN?

Nawr eich bod chi'n gwybod beth yw ein cynlluniau ni – rydyn ni am glywed eich barn chi. Gallwch



Ysgrifennu eich atebion i'r cwestiynau ar y dudalen gefn, ei thynnu'n rhydd a'i phostio atom yn:  
Tîm Moderneiddio Ysgolion  
Addysg ac Ieuencid  
Cyngor Sir y Fflint  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
CH7 6ND



Gallwch roi eich atebion ar-lein yn

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>



Neu anfonwch e-bost atom [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

Diolch dreulio amser yn edrych ar y cynnig hwn.

Os hoffech ddefnyddio'r e-bost, anfonwch eich atebion i [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

Neu os hoffech lenwi'r holiadur ar-lein, ewch i'r ddolen <http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

Cytuno'n gryf	<input type="radio"/>
Yn dueddol o gytuno	<input type="radio"/>
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="radio"/>
Yn dueddol o anghytuno	<input type="radio"/>
Anghytuno'n gryf	<input type="radio"/>

**Ydych chi'n... (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

Disgybl Ysgol Gynradd	<input type="radio"/>
Enw'r Ysgol Gynradd _____	
Disgybl Ysgol Uwchradd Bl 7-9	<input type="radio"/>
Disgybl Ysgol Uwchradd Bl 10-11	<input type="radio"/>
Disgybl Ysgol Uwchradd Bl 12-13	<input type="radio"/>
Disgybl sy'n Llywodraethwr Cyswllt	<input type="radio"/>
Cynghorydd Ysgol	<input type="radio"/>
Mentor Cyfoedion	<input type="radio"/>
Swyddog	<input type="radio"/>

**Beth ydych chi'n ei feddwl am y cynlluniau i gau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd St David's, gyda'r ddarpariaeth chweched dosbarth i gael ei darparu o fis Medi 2017 ymlaen yn yr Hyb ôl-16 ar safle Coleg Cambria yng Nghei Connah?**

**Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn digwydd yn lle'r hyn rydyn ni'n ei gynnig?**

Os hoffech chi ddweud wrthyn ni beth yw eich barn ar y cynllun, cofiwch anfon eich sylwadau atom [erbyn dydd Gwener 17 Gorffennaf 2015](#). Fyddwn ni ddim yn gallu derbyn unrhyw sylwadau ar ôl y dyddiad hwn.